

VAUGHAN-THOMAS, LEWIS JOHN WYNFORD (1908-1987), darlledwr, awdur a gwr cyhoeddus

Enw: Lewis John Wynford Vaughan-thomas
Dyddiad geni: 1908
Dyddiad marw: 1987
Priod: Charlotte Vaughan-Thomas (née Rowlands)
Plentyn: David Vaughan-Thomas
Rhiant: Morfydd Thomas (née Lewis)
Rhiant: David Vaughan Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: darlledwr, awdur a gwr cyhoeddus
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Perfformio
Awdur: D. Ben Rees

Ganwyd Wynford Vaughan-Thomas 15 Awst 1908 yn 9 Calvert Terrace Abertawe, yr ail fab o dri o feibion y cerddor adnabyddus [Dr David Vaughan Thomas](#) a'i briod Morfydd Lewis. Mynychodd Ysgol Ramadeg Abertawe lle y bu tad [Dylan Thomas](#) yn athro arno a lle'r oedd y mab yn ddisgybl, a daeth Wynford Vaughan-Thomas ac yntau yn bennaf ffrindiau. Yn ddiweddarach apwyntiwyd ef yn ysgutor llenyddol ystâd y bardd. Enillodd ysgoloriaeth i astudio Hanes Modern yng Ngholeg Exeter, Prifysgol Rhydychen a graddiodd yn yr ail ddosbarth yn 1930.

Gan ei bod hi'n gyfnod y dirwasgiad cafodd hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Dyma'r cyfnod yr ychwanegodd Vaughan at ei enw a dod yn Vaughan-Thomas. Derbyniodd swydd yn Adran Llawysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1933, a daeth yn swyddog rhanbarth gyda Chyngor Gwasanaethau Cymdeithasol De Cymru yn 1934. Yn 1937 ymunodd ag Adran Ddarlledu Allanol y BBC yng Nghaerdydd, swydd ddelfrydol iddo gan na ddisgwylid iddo ddefnyddio sgript.

Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd trosglwyddwyd ef fel gohebydd gartref y BBC i Lundain, ac yn 1942 ar ôl bod yn sylwebydd ar y bomio mawr yn Llundain, penodwyd ef yn ohebydd Rhyfel.

Daeth yn fuan yn adnabyddus, gan mai ef oedd gohebydd cyntaf y BBC i hedfan mewn awyren bomio Lancaster dros Berlin yn ystod oriau'r nos a hynny yn 1943. Disgrifiodd gyda manylder yr hyn a olygai'r cyfan gan roddi syniad clir i'r gwrandawyr o'r peryglon a wynebai awyrenwyr o Brydain. Yn ddiweddarach cafwyd yr un manylder a'r un disgrifio graffig o'r Eidal, y glanio yn Anzio (lluniodd gyfrol ar yr hanes a gyhoeddwyd yn 1961) a rhyddhau dinas Rhufain. Bu'n darlledu o Burgundy a chafodd ei anrhydeddu gan lywodraeth Ffrainc gyda'r Croix de Guerre yn 1945. Costrelodd yr hanes yn ei gyfrol olaf, *How I Liberated Burgundy: and other Vinous Adventures* (1985). Ef hefyd oedd un o'r rhai cyntaf i ymweld â gweryll Belsen pan y'i hagarwyd.

Bu'n sylwebydd o'r radd flaenaf yn y cyfnod wedi'r Rhyfel o dan nawdd y BBC ar deithiau'r teulu brenhinol i Dde Affrig yn

1947, i'r Gymanwlad yn 1954, adeg Annibyniaeth yr India a Pacistan (1947), Coroni'r Frenhines Elizabeth II (1953), ac yn y Dwyrain Canol yn 1956, ac yn Ewrop a Chyfandir Affrig yn y cyfnod 1956-1964. Yr oedd yn siaradwr rhugl, yn meddu ar fwrllwm emosiynol a phersonoliaeth gref, ac yn croesawu'r cyfle i deithio o un wlad i'r llall. Ceir cipolwg ar hyn yn ei hunangofiant, *Trust to Talk* (1980). Ystyrid ef â Richard Dimbleby fel y ddau sylwebydd mwyaf proffesiynol o holl ohebwy'r BBC. Priodol felly iddo gael y cyfle i sylwebu ar y teledu o Abaty San Steffan ar arwyl ei ffrind, Richard Dimbleby, yn 1965.

Gadawodd y BBC yn 1967 a daeth yn un o sylfaenwyr sianel teledu, Teledu Harlech, i wasanaethu Cymru a Gorllewin Lloegr. Apwyntiwyd Wynford Vaughan-Thomas yn Gyfarwyddwr Rhaglenni cyntaf Teledu Harlech (HTV) yng Nghaerdydd a thair blynedd yn ddiweddarach fe'i dyrchafwyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol y cwmni. Daeth yn enw adnabyddus i gartrefi Cymru ar gyfrif ei raglenni ar y sianel annibynnol yn y 1970au a'r 1980au. Cyrhaeddwyd uchafbwynt ei yrfa o flaen y camerâu teledu pan drefnwyd cyfres deledu ar hanes Cymru o dan y teitl *When was Wales?*, pan wahoddwyd Vaughan-Thomas ac hanesydd proffesiynol, yr Athro Gwyn Alf Williams, i drafod a dadlau a chnoi cil ar hynt a helynt cenedl y Cymry o ddau safbwynt gwahanol. Amddiffynnai Vaughan-Thomas y safbwynt traddodiadol, rhyddfrydol o'r saga, tra cyflwynai'r Dr Gwyn A. Williams y safbwynt Marcsaidd. Daeth yr hanes yn fyw yng nghwmni'r ddau a bu'r gyfres yn 1985 yn destun trafod cyson.

Roedd Wynford Vaughan-Thomas yn ymfalchio yn hanes Cymru ac yn amddiffynnydd tirlun Cymru. Paratôdd gyfrol ar y cyd gydag Alun Llewellyn, *The Shell Guide to Wales* (1969) a chyflwyniad i ardal a adweinai'n dda yn ei blentyndod a'i lenctyndod, *Portrait of Gower* (1976). Gwelir ei ymlyniad wrth Gymru, y tywysogion a'r gwyr bonheddig yn *Wynford Vaughan-Thomas' Wales* (1981), *Princes of Wales* (1982), *The Countryside Companion* (1983) a *Wales: A History* (1985). Dyma gorff pwysig o lenyddiaeth hanesyddol, boblogaidd. Ef hefyd oedd awdur *Madly in all Directions* (1967) a *Dalgety* (1984). Daliodd i ddarlledu ar y radio a theithio bob cyfle a gâi i Lundain i gyfarfod â'i ffrindiau o gyfnod y BBC a'u diddanu â'i stôr o limrigau 'amheus', storïau a digonedd o hiwmor.

Yng Nghymru bu'n barod iawn i dderbyn cyfrifoldebau yn y mudiadau a oedd wrth fodd ei galon. Bu'n Gyfarwyddwr Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, Cadeirydd Cyngor Cadwraeth Cymru Wledig a Chyfarwyddwr o 1977 i 1980 i'r Sefydliad Ffilm Prydeinig (British Film Institute). Cafodd ei anrhydeddu am ei gyfraniad. Gan ei fod yn medru'r iaith fe'i gwahoddwyd yn aelod (gwisg wen) o Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Hwlfordd yn 1972, yn ei sir fabwysiedig.

Ar ôl priodi yn 1946 Charlotte, merch John Rowlands, un o weision sifil pwysicaf ei gyfnod, aeth y ddau i fyw i Abergwaun lle ganwyd ei mab, David Vaughan-Thomas, cyfarwyddwr ffilmiau. Gwnaed Wynford Vaughan-Thomas yn OBE yn 1974, MA (er anrhydedd) y Brifysgol Agored yn 1982, a CBE yn 1986. Bu farw yn ei gartref ym Mhentowr, Abergwaun ar 4 Chwefror 1987.

Gadawodd ei holl bapurau, sydd yn gasgliad gwerthfawr dros ben, i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Adeiladwyd cofadail i'w goffáu ar ffurf toposcope ger Moel Fadian, tri chilometr o Aberhosan gan fod y lleoliad yn rhoddi golygfa fendigedig o dirlun Cymru tuag at fynyddoedd Gwynedd. Dathlwyd ei fywyd diddorol ar ddydd Gwener, 27 Tachwedd 2009, yn ei dref fabwysiedig, Abergwaun, o dan arweiniad Emyr Daniel, ei fab, ac eraill.

Awdur

D. Ben Rees

Ffynonellau

The Times, 5 Chwefror, 1987

The Independent, 6 Chwefror 1987

Oxford Dictionary of National Biography

ymchwil ac adnabyddiaeth bersonol

Darllen Pellach

Wynford Vaughan-Thomas, *How I liberated Burgundy: and other vinous adventures* (London 1985)

[Wynford Vaughan-Thomas \(1908-1987\)](#), gwefan Maes y Gad i Les y Wlad, gwelwyd 30 Mai 2019

Erthygl Wicipedia: [Wynford Vaughan-Thomas](#)

Sain a Ffilm

HTV: [The Dragon has Two Tongues](#), 1985

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: [Wynford Vaughan-Thomas Papers](#)

VIAF: [74054038](#)

Wikidata: [Q8040155](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2011-03-04

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

